Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Bwyd a Chi 2

Bwyd a Chi 2 yw ein harolwg ystadegyn swyddogol sy'n mesur yr wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiadau a nodwyd gan bobl o ran diogelwch bwyd ac ymddygiadau eraill sy'n ymwneud â bwyd.
Os ydych wedi cael llythyr yn eich gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg Bwyd a Chi 2, ewch i wefan yr arolwg.

## Beth yw Bwyd a Chi 2?

Bwyd a Chi 2 yw ein harolwg ystadegyn swyddogol blynyddol a gynhelir gydag oedolion (16 oed neu h?n) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r arolwg yn mesur yr wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiadau a nodwyd gan bobl o ran diogelwch bwyd ac ymddygiadau eraill sy'n ymwneud â bwyd.

Mae Bwyd a Chi 2 yn defnyddio dull 'gwthio-i'r-we'. Mae hyn yn golygu bod yr ymatebwyr, i ddechrau, yn cael llythyr drwy'r post yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg ar-lein. Maent hefyd yn gallu llenwi fersiwn bapur o'r holiadur.

## Y pynciau sy'n cael eu cynnwys yn arolwg Bwyd a Chi 2

Mae Bwyd a Chi 2 yn ymdrin â phynciau fel diogelwch bwyd yn y cartref, siopa bwyd, bwyta allan, diogeledd bwyd, pryderon am fwyd, ac ymddiriedaeth yn yr ASB a'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhestr o'r modiwlau a'r pynciau dan sylw:

| Modiwl | Pynciau dan sylw |
|---|---|
| Amdanoch chi a'ch cartref | • Dewisiadau deietegol a gorsensitifrwydd i fwyd (amlder a diagnosis)<br>• Cyfrifoldebau siopa a choginio<br>• Gwybodaeth am gartrefi a demograffeg |
| Bwyd y gallwch ymddiried ynddo | • Ymwybyddiaeth o'r ASB ac ymddiriedaeth ynddi<br>• Hyder o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd<br>• Hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd |
| Pryderon am fwyd | • Pryderon am fwyd |
| Diogeledd bwyd | • Nifer yr achosion o ddiffyg diogeledd bwyd (modiwl diogelwch bwyd USDA)<br>• Defnyddio banciau bwyd<br>• Defnyddio archfarchnadoedd cymdeithasol |
| Siopa am fwyd | • Ymddygiadau wrth brynu bwyd<br>• Hyder mewn gwybodaeth am alergenau<br>• Ymwybyddiaeth a chamau a gymerwyd mewn ymateb i rybuddion bwyd ac alergeddau<br>• Agweddau tuag at les anifeiliaid, tarddiad ac effaith amgylcheddol bwyd |

| Modiwl | Pynciau dan sylw |
|---|---|
| Bwyta allan a’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) | • Agweddau ac ymddygiadau yn ymwneud â bwyta allan ac archebu bwyd o siopau tecawê<br>• Ymwybyddiaeth a defnydd o’r CSHB |
| Bwyta gartref | • Gwybodaeth am ddiogelwch bwyd ac ymddygiadau yn y cartref |
| Gorsensitifrwydd i fwyd | • Cwestiynau manwl ar orsensitifrwydd i fwyd |
| Bwyta’n iach (Gogledd Iwerddon) | • Bwyta’n iach gan gynnwys gwybodaeth (er enghraifft canllawiau’r llywodraeth), agweddau ac ymddygiad |
| Dewisiadau bwyd | • Deietau iachus a chynaliadwy<br>• Ymddygiadau wrth brynu |

# Adroddiadau Ystadegau Swyddogol Bwyd a Chi 2

Mae’r prif adroddiad, yr adroddiad technegol a’r data ar gyfer pob cylch i’w gweld yn y dolenni canlynol:

- Bwyd a Chi 2: Cylch 11
- Bwyd a Chi 2: Cylch 10
- Bwyd a Chi 2: Cylch 9
- Bwyd a Chi 2: Cylch 8
- Bwyd a Chi 2: Cylch 7
- Bwyd a Chi 2: Cylch 6
- Bwyd a Chi 2: Cylch 5
- Bwyd a Chi 2: Cylch 4
- Bwyd a Chi 2: Cylch 3
- Bwyd a Chi 2: Cylch 2
- Bwyd a Chi 2: Cylch 1

# Adroddiad technegol

Adroddiad technegol Bwyd a Chi – pob cylch

# Adroddiadau dadansoddi eilaidd

## Tueddiadau Bwyd a Chi 2

- Bwyd a Chi 2: Tueddiadau 2020-2024
- Bwyd a Chi 2: Tueddiadau 2020-2023

## Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) Bwyd a Chi 2: Cylch 10
- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) Bwyd a Chi 2: Cylch 8
- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) Bwyd a Chi 2: Cylch 2
- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) Bwyd a Chi 2: Cylch 4
- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) Bwyd a Chi 2: Cylch 6

## Dadansoddiad eilaidd gwlad-benodol: Cymru a Gogledd Iwerddon

- Diogeledd Bwyd yng Ngogledd Iwerddon Cylch 1 (PDF)
- Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 1-2 yn benodol i Gymru a Gogledd Iwerddon
- Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 3-4 Gogledd Iwerddon
- Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 5-6 Gogledd Iwerddon
- Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 7-8 Gogledd Iwerddon

### Tablau data, setiau data a chanllaw defnyddio data

Cylchoedd unigol
Data tueddiadau

### Data SPSS a deunyddiadau'r arolwg (i'w cael trwy Wasanaeth Data y DU)

Bwyd a Chi 2: Cylch 1 ac ymlaen

## Cyhoeddiadau yn y dyfodol

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Bwyd a Chi 2: Canfyddiadau Allweddol Cylch 12 | Gwanwyn 2027 |

### Ymchwil gysylltiedig

- Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

## Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â thîm Bwyd a Chi 2 gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:
foodandyou@food.gov.uk